UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Tâl a Phensiynau

Ymddeoliad Cynnar

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymddeoliad Cynnar

Mae tri math o ymddeoliad:

- **ymddeoliad ar sail oedran** o 55 mlwydd oed ymlaen.
- **ymddeoliad cynnar gyda chefnogaeth y cyflogwr**. Mae ar gael i athrawon 50 mlwydd oed a throsodd os terfynir eu cyflogaeth oherwydd diswyddo gorfodol ar sail gormodedd neu er mwyn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth.
- **ymddeoliad cynnar ar sail tor-iechyd**, sydd ar gael i unrhyw oedran os oes tystiolaeth feddygol na fyddai'n bosibl parhau i ddysgu.

Mae athrawon yn gymwys i dderbyn budd-daliadau pensiwn ar ôl cyflawni un o'r canlynol:

- 2 flynedd o wasanaeth pensiynadwy unrhyw bryd ar ôl 5 Ebrill 1988
- 2 flynedd o wasanaeth pensiynadwy unrhyw bryd os oeddech mewn gwasanaeth pensiynadwy ar 6 Ebrill 1988
- cyfanswm o 5 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy ar unrhyw adeg

Pan ddefnyddir y term athro yn y daflen hon, mae'n cynnwys athrawesau, darlithwyr ac unrhyw weithwyr eraill sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Os bydd athro'n dewis rhoi'r gorau i'w waith gall, wrth gwrs, wneud hynny unrhyw adeg cyn belled â'i fod yn cyflwyno'r rhybudd angenrheidiol. Ni fyddai'r pensiwn yn cael ei rhyddhau hyd nes y byddai'r athro'n cyrraedd yr Oed Ymddeol Arferol neu'n dewis codi pensiwn wedi'i leihau'n actiwaraidd o 55 mlwydd oed ymlaen. Gallai, serch hynny, wneud cais am ymddeoliad cynnar gyda chefnogaeth y cyflogwr os yw dros 50 mlwydd oed neu ymddeoliad cynnar ar sail tor-iechyd cyn cyrraedd yr Oed Ymddeol Arferol.

Mae Taflen UCAC: *Ymddeoliad a'ch Pensiwn* yn rhoi gwybodaeth fanwl am ymddeoliad ar sail oedran a'ch hawliau pensiwn. Gall athrawon oedd yn dysgu cyn Ionawr 2007 ymddeol ar bensiwn llawn pan fyddant yn cyrraedd yr Oed Ymddeol Arferol o 60 mlwydd oed ond mae hawl i barhau i weithio hyd at 65 mlwydd oed. Yr Oed Ymddeol Arferol i athrawon sydd wedi dechrau dysgu o 1 Ionawr 2007 ymlaen yw 65. Mae hawl gan unrhyw athro wneud cais i'w gyflogwr am ganiatâd i barhau i weithio wedi 65.

Gall athrawon ddewis ymddeol wedi cyrraedd 55 mlwydd oed ond byddai hynny ar bensiwn gostyngol. Gweler **Taflen UCAC: *Pensiwn wedi'i Leihau yn Actiwaraidd*** am fwy o fanylion.

Mae'r daflen hon yn ymwneud â'r gwahanol fathau o ymddeoliad cynnar sy'n bosib cyn cyrraedd yr Oed Ymddeol Arferol o naill ai 60 neu 65 mlwydd oed.

Ymddeoliad Cynnar gyda Chefnogaeth y Cyflogwr

Mae hwn ar gael i'r canlynol yn unig: athrawon dros 50 mlwydd oed sydd efo gwasanaeth cyn Ebrill 2006 neu athrawon dros 55 mlwydd oed sydd wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn Athrawon o Ebrill 2006 ymlaen. Bydd ar gael i athrawon dros 55 mlwydd oed yn unig o Ebrill 2010 ymlaen.

Mae'n cael ei gynnig:

- er mwyn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth
- yn lle diswyddo gorfodol (*compulsory redundancy)* ar sail gormodedd lle mae swydd yr athro yn dod i ben
- er mwyn osgoi diswyddiad gorfodol cyd-weithiwr gan lenwi swydd yr athro sy'n ymddeol drwy benodiad mewnol neu hyd yn oed drwy gadwyn o symudiadau.

Mae caniatáu ymddeoliad cynnar am y rhesymau hyn yn ôl disgresiwn y cyflogwr a byddai'n ofynnol i'r cyflogwr ystyried:

- gallu'r unigolyn dan ystyriaeth i barhau i wneud cyfraniad
- a fyddai modd cyflawni nodau strategol, academaidd ac ariannol y sefydliad neu'r gwasanaeth mewn rhyw fodd arall
- a fyddai dewis arall yn bosib e.e. adleoli, gweithio'n rhan-amser neu ymddeoliad graddol
- faint o arian fyddai'n cael ei arbed trwy ganiatau ymddeoliad cynnar o gymharu â chost rhyddhau'r pensiwn yn gynnar
- effaith yr ymddeoliad ar y sefydliad neu'r gwasanaeth

Erbyn hyn mae llai o Awdurdodau Addysg yn cynnig y math yma o ymddeoliad o gymharu â'r sefyllfa yn y 1990au a chyn hynny. Mae'r telerau a gynigir hefyd fel arfer yn llai ffafriol nac yn y gorffennol. Byddai'r swm o bensiwn a 'enillwyd' hyd at ddyddiad yr ymddeoliad yn cael ei dalu'n llawn - hynny yw, ni fyddai gostyngiad actiwaraidd yng ngwerth y pensiwn. Ond, er bod hawl o hyd gan y cyflogwr i gynnig ychwanegu at flynyddoedd gwasanaeth yr unigolyn, nid oes llawer yn gwneud hynny gan fod y gost i'r

Awdurdod Lleol yn sylweddol.

Tâl Diswyddo

Yn ôl Cyfraith Cyflogaeth mae'n orfodol i gyflogwyr dalu tâl diswyddo pan fydd gweithwyr sy'n cael eu cyflogi ar gontract parhaol yn colli eu gwaith. Mae UCAC o'r farn y dylid trin athrawon ar gontractau dros dro'n yr un modd os ydyw'r contract yn cael ei adnewyddu am yr ail flwyddyn neu fwy. Byddai maint y tâl yn ddibynnol ar oed yr unigolyn ac ar nifer y blynyddoedd o wasanaeth sydd ganddo. Mae'r gyfraith yn nodi'r lleiafswm statudol; mae'n bosib y byddai rhai cyflogwyr, gan gynnwys Awdurdodau Addysg Lleol, yn cynnig gwell na hyn. Byddai'n rhaid i chi holi eich cyflogwr neu UCAC trwy gysylltu â'r Swyddog Maes perthnasol neu Ysgrifennydd eich Cymdeithas Sir (gweler blwyddlyfr neu wefan UCAC am fanylion).

Mae'n bosib i gyflogwr roi cefnogaeth i athro sy'n cael ei ddiswyddo'n orfodol trwy wahanol fesurau neu gyfuniad o fesurau. Gellid cynnig Tâl Diswyddo Gorfodol sylfaenol ynghyd â rhyddhau pensiwn heb ostyngiad actiwaraidd ac, o bosib, ychwanegu at y blynyddoedd o wasanaeth neu gellid cynnig Cyflog Diswyddo Uwch (severance payment). Nid yw'r rheolau'n caniatáu rhyddhau pensiwn a thalu Cyflog Diswyddo Uwch yr un pryd. Byddai'n rhaid ystyried pa becyn fyddai mwyaf manteisiol i chi, yn ôl eich amgylchiadau personol, a gallai UCAC eich cynghori a'ch cynorthwyo wrth i chi drafod hyn efo'ch cyflogwr.

Tâl Diswyddo Gorfodol (Redundancy Payment)

Gall Awdurdod Addysg dalu'r Tâl Diswyddo Gorfodol sylfaenol yn ogystal â chaniatáu i athro ymddeol yn gynnar. Dyma'r lleiafswm statudol sydd yn rhaid i gyflogwyr ei gynnig (dylid nodi bod hawl ganddynt i gynnig telerau gwell):

1. wythnos a hanner o gyflog am bob blwyddyn gyfan o wasanaeth di-dor pan oedd yr athro dros 41 mlwydd oed
2. wythnos o gyflog am bob blwyddyn gyfan pan oedd yr athro rhwng 22 a 41 mlwydd oed
3. hanner wythnos o gyflog am bob blwyddyn gyfan rhwng 18 a 21 mlwydd oed.

Ystyr 'wythnos o gyflog' yw'r gwir gyflog wythnosol neu uchafswm o £330, pa un bynnag yw'r isaf.

Mae'n gyfreithlon i gyflogwyr gyfyngu cyfanswm y blynyddoedd i'w hystyried i 20 mlynedd a fyddai'n golygu mai taliad cyfwerth â 30 wythnos o gyflog yw'r uchafswm y gellid ei hawlio. Felly, dim ond athro efo ugain mlynedd o

wasanaeth wedi ei ben-blwydd yn 41 mlwydd oed fyddai'n gallu derbyn yr uchafswm. Byddai'r swm y mae gan athro hawl statudol iddo felly yn ddim mwy na 1.5 x 20 x £330 = £9900.

Cyflog Diswyddo Gorfodol Uwch (Severance Payment)

Gall cyflogwr ddiswyddo athro'n orfodol heb ryddhau'r pensiwn - yn wir, lle bo'r athro o dan 50 mlwydd oed (55 o 2010 ymlaen) ni all y cyflogwr ryddhau'r pensiwn.

- Pan na chaiff y pensiwn ei ryddhau, caniateir i'r cyflogwr dalu Cyflog Diswyddo Gorfodol Uwch. Nid oes hawl gan athro i'r arian yma; mae'n dibynnu ar bolisi'r cyflogwr.
- Nid yw'n bosib i gyflogwr dalu Cyflog Diswyddo Uwch i athro sydd wedi cyrraedd ei Oedran Ymddeol Arferol o 60 (i athrawon efo gwasanaeth cyn 31 Rhagfyr 2006) neu 65 (i athrawon yn ymuno â'r cynllun pensiwn athrawon o 1 Ionawr 2007 ymlaen).
- Bydd maint y taliad yn dibynnu ar oedran yr athro ar adeg ei ddiswyddo, ar nifer y blynyddoedd o wasanaeth ac ar bolisi'r cyflogwr. Yr uchafswm a ganiateir yw taliad sy'n cyfateb i 104 wythnos o gyflog.

Ymddeoliad Cynnar ar Sail Tor-Iechyd

Mae'n bosibl i athro sy'n dioddef o afiechyd a'i gwna hi'n amhosibl iddo barhau i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol gael ymddeoliad cynnar ar sail tor-iechyd. Rhaid cael tystiolaeth feddygol gadarn gan Feddyg Teulu ac/neu Arbenigwr a rhaid derbyn cefnogaeth y cyflogwr. Golyga hynny, yn achos athro mewn ysgol arferol, y bydd yr Awdurdod Addysg yn cyfeirio'r athro ar Feddyg Galwedigaethol y Sir a rhaid derbyn ei gefnogaeth ef hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei ganiatáu, bydd yr athro yn derbyn y budd-daliadau pensiwn arferol, sef talpswm ac yna pensiwn blynyddol am weddill ei oes.

Mae dwy haen o daliadau ar gyfer athrawon sydd wedi cael eu cydnabod fel athrawon sydd yn barhaol anabl i ddysgu:

- Budd-dal Analluogrwydd Rhannol (*Partial Incapacity Benefit - PIB*) ar gyfer athrawon sydd yn barhaol anabl i ddysgu ond sydd yn medru gwneud gwaith arall nad yw â'r un pwysau â dysgu. yddai athro yn derbyn ei bensiwn a'i dalpswm yn llawn (heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd) yn ôl y nifer y blynyddoedd o wasanaeth a gyflawnwyd ond ni fyddai'n derbyn unrhyw ychwanegiad at y gwasanaeth hwnnw.

- Budd-dal Analluogrwydd Llwyr (*Total Incapacity Benefit - TIB*) ar gyfer athrawon sydd yn barhaol anabl i gyflawni unrhyw waith o gwbl. Byddai athro yn derbyn ei bensiwn a'i dalpswm yn llawn yn ôl nifer y blynyddoedd o wasanaeth a gyflawnwyd gydag ychwanegiad at y gwasanaeth hwnnw. Byddai'r ychwanegiad yn cyfateb i hanner y gwasanaeth posib hyd at yr Oedran Ymddeol Arferol. Er enghraifft, byddai athro 36 mlwydd oed efo Oedran Ymddeol Arferol o 60 yn derbyn ychwanegiad o 12 mlynedd tra byddai athro o'r un oed efo Oedran Ymddeol Arferol o 65 yn derbyn ychwanegiad o 14.5 blwyddyn.

Cyflwyno cais am ymddeoliad tor-iechyd

Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon drwy'r cyflogwr. Mae ffurflenni pwrpasol ar gael gan eich cyflogwr neu'n uniongyrchol gan yr Asiantaeth Pensiynau. Fel arfer, y cyflogwr sydd yn talu unrhyw gostau sy'n ymwneud â chyflwyno'r cais megis tâl am adroddiadau meddygol a byddai swyddogion Adnoddau Dynol yr Awdurdod yn cynorthwyo i gwblhau'r cais. Ond byddai UCAC hefyd yn eich cynghori i gysylltu â'r undeb am gyngor ac arweiniad ar sut i gyflwyno eich cais yn y modd mwyaf effeithiol.

Os yw'r cais yn cael ei wrthod, mae hawl i apelio. Nid yw'r cyflogwr yn ymwneud â'r broses hon ond gall UCAC gynnig cyflwyno'r apêl gan dalu unrhyw gostau cysylltiedig.

Nid yw sicrhau'r hawl i ymddeoliad cynnar ar sail tor-iechyd mor rhwydd ac y bu. Gwneir y penderfyniad gan arbenigwyr meddygol yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (*DCSF*) ar sail y dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd. Os yw athro wedi bod dan law Arbenigwr byddai, fel arfer, yn angenrheidiol derbyn adroddiad ganddo. Mae hefyd yn bwysig ystyried cyflwr iechyd cyffredinol yr athro, yn arbennig os yw'n dioddef o fwy nac un anhwylder. Yn yr achosion hyn, mae'n bosib mai tystiolaeth Meddyg Teulu fyddai fwyaf allweddol. Rhaid i unrhyw farn a fynegir ganddynt gael ei chefnogi gan Feddyg Galwedigaethol y cyflogwr. I sicrhau cais llwyddiannus, heb orfod mynd i apêl, byddai datganiadau diamwys gan Arbenigwr, Meddyg Teulu a Meddyg Galwedigaethol fod athro yn 'barhaol anabl i ddysgu' o gymorth mawr.

Pryd i gyflwyno'r cais

Gall athrawon dderbyn tâl salwch sy'n cyfateb i gyflog llawn am 100 diwrnod gwaith a hanner cyflog am 100 diwrnod arall. Nid yw'r dyddiau hyn yn cynnwys penwythnosau na gwyliau felly mae'n bosib derbyn tâl salwch am tua blwyddyn. Fel arfer byddai'n fanteisiol i athro dderbyn ei haeddiant llawn o dâl salwch cyn ymddeol ar sail iechyd. Byddai'r tâl salwch yn fwy na'r pensiwn a byddai blwyddyn o dderbyn tâl salwch yn ychwanegu at hyd gwasanaeth yr

athro gan sicrhau iddo bensiwn uwch.

Mae'n anodd dweud pryd yn union y dylid cyflwyno cais am ymddeoliad ar sail tor-iechyd ond byddai UCAC yn awgrymu fod hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod o dderbyn hanner cyflog. Byddai UCAC hefyd yn pwyso ar gyflogwyr i

roi tri mis o rybudd (notis) i athro ar derfyn cyfnod y tâl salwch a fyddai'n golygu derbyn tri mis o gyflog llawn wedi i'r tâl salwch ddod i ben. Gallai hyn fod o gymorth mawr i athro i lenwi'r bwlch rhwng diwedd y tâl salwch a dechrau talu'r pensiwn, yn arbennig pe byddai wedi bod yn angenrheidiol iddo apelio.

Athrawon gyda salwch terfynol

Byddai'n bosib i athro sy'n dioddef o salwch terfynol wneud cais am gyfnewid (*commute*) y pensiwn blynyddol a fyddai'n ddyledus iddo am un taliad talpswm. Byddai angen tystiolaeth feddygol bod ganddo ddisgwyliad oes tebygol o lai na blwyddyn. Byddai'r talpswm yn gyfwerth â phum gwaith y pensiwn blynyddol ac yn ychwanegol at y talpswm arferol a delir pan ryddheir y pensiwn. Er enghraifft, byddai athro efo pensiwn blynyddol o £12,000 a thalpswm arferol o £36,000 yn gallu derbyn un taliad o £96,000. Ni fyddai'n derbyn unrhyw bensiwn blynyddol wedi hynny pe byddai'n cael adferiad iechyd.

Nid yw dewis derbyn y talpswm ychwanegol yma'n effeithio ar hawliau priod, partner neu blant dibynnol i dderbyn pensiwn dibynyddion.

Marwolaeth tra'n gweithio neu'n fuan wedi ymddeol

1. Pe byddai athro'n marw tra mae'n parhau i weithio, gan gynnwys yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch, neu os yw'n marw o fewn blwyddyn i roi'r gorau i'w waith a heb fod yn derbyn pensiwn, byddai Grant Marwolaeth yn daladwy i'w briod, partner sifil neu rywun arall a enwebwyd ganddo. Byddai'r Grant Marwolaeth gyfwerth â thair gwaith y cyflog blynyddol terfynol.
2. Pe byddai athro'n marw wedi mwy na blwyddyn wedi iddo roi'r gorau i'w waith a heb fod yn derbyn pensiwn (e.e. wedi symud i waith arall efo cynllun pensiwn gwahanol) byddai Grant Marwolaeth Tu Allan i Wasanaeth (*Out of Service Death Grant*) yn daladwy i'w briod, partner sifil neu rywun arall a enwebwyd ganddo. Byddai'r swm cyfwerth â thair gwaith y pensiwn blynyddol y gallai'r athro ei hawlio.
3. Pe byddai athro'n marw o fewn pum mlynedd i ddechrau derbyn pensiwn byddai Grant Marwolaeth Atodol (*Supplemtentary Death Grant*) yn daladwy i'w briod, partner sifil neu rywun arall a enwebwyd ganddo.

Byddai'r swm hwn gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y pensiwn blynyddol (ond nid y talpswm) y mae eisoes wedi ei dderbyn â phum gwaith y pensiwn blynyddol. Er enghraifft, byddai athro'n marw dair blynedd union wedi ymddeol ar bensiwn blynyddol o £14,000 yn derbyn Grant Marwolaeth Atodol o £28,000.

Pensiynau Dibynyddion (*Dependants' Pensions*)

Mae gwahanol fathau o bensiynau'n daladwy i weddw, partner sifil neu enwebai. Mae hawl i **Bensiwn Tymor Byr** cyfwerth â thri mis o gyflog yr athro os yw'r athro'n marw tra'n dal i weithio neu o fewn 12 mis i roi'r gorau i'w waith ond heb fod yn derbyn pensiwn. Os yw'r athro'n marw tra'n derbyn pensiwn, mae'r Pensiwn Tymor Byr a fyddai'n daladwy yn gyfwerth â thri mis o bensiwn.

Mae **Pensiwn Tymor Hir** yn daladwy i weddw, partner sifil neu enwebai ond dim ond gwasanaeth wedi'r dyddiadau canlynol sy'n cyfrif:

gweddw:	gwasanaeth o 1 Ebrill 1972 ymlaen yn unig
partner sifil:	gwasanaeth o 6 Ebrill 1988 ymlaen yn unig
enwebai:	gwasanaeth o 1 Ionawr 2007 ymlaen yn unig

Mae'r swm hwn yn hanner y pensiwn y byddai'r athro'n ei dderbyn. Telir talpswm cyfwerth â thair gwaith y Pensiwn Tymor Hir hwn. Er enghraifft, pe byddai athro ar bensiwn o £16,000 y flwyddyn (gyda'i wasanaeth i gyd wedi 1972) yn marw, byddai ei weddw yn derbyn Pensiwn Tymor Hir blynyddol o £8,000 a thalpswm o £24,000.

Gweithio wedi Ymddeol

Mae hawl athro i weithio ar ôl iddo ymddeol heb i hynny effeithio ar ei bensiwn yn dibynnu ar y math o bensiwn y mae'n ei dderbyn.

- **Pensiwn llawn yn dilyn ymddeoliad wedi cyrraedd yr Oedran Ymddeol Arferol**. Mae hawl gan athro i gymryd gwaith arall gydag unrhyw awdurdod, mudiad neu gwmni nad yw'n defnyddio'r Cynllun Pensiwn Athrawon heb i hynny effeithio ar ei bensiwn o gwbl. Gall hefyd wneud gwaith pellach fel athro, neu i unrhyw gyflogwr sy'n defnyddio'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ond gallai hynny effeithio ar ei bensiwn. Os yw cyfanswm ei gyflog a'i bensiwn, oddi mewn i unrhyw flwyddyn dreth, yn fwy na'r cyflog terfynol (wedi ei addasu'n flynyddol yn ôl chwyddiant) a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu ei bensiwn, byddai ei bensiwn yn cael ei atal (*abatement*) yn syth.

- **Pensiwn wedi ei leihau'n actiwaraidd yn dilyn ymddeoliad ar sail oedran o 55 mlwydd oed ymlaen**. Mae hawl gan athro i wneud unrhyw waith pellach, gan gynnwys dysgu, heb i hynny effeithio ar ei bensiwn o gwbl.
- **Pensiwn llawn yn dilyn ymddeoliad cynnar o oedran 50 ymlaen gyda chaniatâd y cyflogwr.** Mae hawl gan athro i wneud gwaith pellach ond gallai hynny effeithio ar ei bensiwn os yw cyfanswm y cyflog a'r pensiwn yn fwy na'r cyflog terfynol (wedi ei addasu'n flynyddol yn ôl chwyddiant) a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu ei bensiwn.
- **Pensiwn yn dilyn ymddeoliad cynnar ar sail tor-iechyd.** Mae'r hawl i weithio yn dibynnu ar bryd y dechreuodd yr ymddeoliad:
    - **ymddeoliad wedi dechrau cyn 1 Ebrill 1997**. Mae hawl gan athro i wneud gwaith arall, gan gynnwys dysgu yn rhan-amser, a pharhau i dderbyn pensiwn. Os yw'r cyflog a'r pensiwn yn fwy na'r cyflog terfynol yna byddai'r pensiwn yn cael ei atal.
    - **ymddeoliad rhwng 1 Ebrill 1997 a 5 Ionawr 2007.** Pe byddai athro'n gwneud unrhyw fath o addysgu, neu unrhyw fath o waith i gyflogwr sy'n defnyddio'r Cynllun Pensiwn Athrawon, byddai ei bensiwn yn cael ei atal yn syth.
    - **ymddeoliad yn dechrau o 6 Ionawr 2007 ymlaen.** Nid oes hawl gan athro sydd wedi ymddeol yn gynnar ar sail tor-iechyd i ddychwelyd i ddysgu nac i wneud unrhyw waith i gyflogwr sy'n defnyddio'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Os yw'n derbyn Budd-dal Anallu ogrwydd Rhannol (*PIB*) mae hawl ganddo i wneud gwaith arall heb i hynny effeithio ar ei bensiwn. Os yw athro'n derbyn Budd-dal Anallu ogrwydd Llwyr (*TIB*), mae'n bosib y byddai'n cael gwneud peth gwaith arall. Byddai'n rhaid gofyn am farn yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon.

Ym mhob un o'r achosion hyn o ymddeol ar sail tor-iechyd, mae'n bosib y gallai'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ffurfio'r farn bod ymgymryd ag unrhyw waith pellach yn dangos bod iechyd yr athro wedi gwella'n ddigonol i'w alluogi i ddychwelyd i ddysgu. Os felly, ni fyddai hawl i barhau i dderbyn pensiwn tor-iechyd. Byddai pob achos yn cael ei ystyried yn unigol yn ôl natur y gwaith pellach a natur y salwch a arweiniodd at ganiatáu'r ymddeoliad cynnar. Cynghorir athrawon i gysylltu â'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon i dderbyn cyngor os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag effaith gwaith pellach ar hawl i bensiwn.

Cyngor Pellach

Mae'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon yn cynhyrchu cyfres o daflenni a ffurflenni sydd ar gael ar eu gwefan www.teacherspensions.co.uk. Cyfeiriad yr Asiantaeth yw Teachers' Pensions, Mowden Hall, Darlington, DL3 9EE a gellir cael gwybodaeth bellach drwy'r llinell gymorth – 0845 6066166.

Gweler hefyd taflenni UCAC

- Ymddeoliad a'ch Pensiwn
- Pensiwn wedi'i leihau'n Actiwaraidd.

I gael unrhyw gyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd, eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De, dilwyn@athrawon.com

Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, elaine@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi, rebecca@athrawon.com

Nodiadau

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com